Trwyddedau Parcio i Breswylwyr – Telerau ac Amodau

- Gall preswylwyr eiddo cymwys wneud cais am uchafswm o ddwy Drwydded Parcio i Breswylwyr fesul eiddo yn eu parth Trwyddedau Parcio i Breswylwyr. Mewn parthau lle nodwyd bod nifer y lleoedd parcio sydd ar gael ar y stryd yn bryder penodol, dim ond un Drwydded Parcio i Breswylwyr fesul eiddo a ganiateir.
- Dylid ystyried y diffiniadau a'r arweiniad canlynol yn rhan o gynllun parcio i breswylwyr:

1. Ystyrir preswylydd yn unrhyw berson sy'n byw mewn eiddo o fewn y cynllun diffiniedig a ddylai fod wedi'i gofrestru yn y cofrestrau Treth Gyngor.
2. Diffinnir eiddo'n eiddo domestig a restrir dan ddiffiniadau'r Dreth Gyngor. Ystyrir mai eiddo sengl yw tŷ amlfeddiannaeth y caiff y dreth gyngor ei dalu ar gyfer y tŷ cyfan hwnnw. Pan fo eiddo'n dŷ amlfeddiannaeth (er enghraifft, tŷ a rennir neu ystafelloedd a rentir yn unigol) ond bod ganddo un cyfrif Treth Gyngor yn unig, yna bydd y trwyddedau'n cael eu rhoi ar sail y cyntaf i'r felin.

- Nid yw cael trwydded yn gwarantu y bydd man parcio ar gael.
- Dim ond i gerbyd dynodedig a nodir gan Farc Cofrestru Cerbyd (MCC) y rhoddir trwyddedau.
- Dim ond i breswylwyr y mae eu man preswylio arferol o fewn ardal cynllun parcio i breswylwyr cyfredol ac y mae'r cerbyd(au) sy'n eiddo iddynt neu a gedwir ganddynt wedi'u cofrestru yn y cyfeiriad hwnnw y rhoddir trwyddedau.
- Dim ond yn y parth a nodir ar y drwydded/y llythyr sy'n cadarnhau'r drwydded y gellir defnyddio Trwyddedau Parcio i Breswylwyr.
- Ni chaniateir i landlordiaid na pherchenogion yr eiddo wneud cais am drwydded oni bai eu bod yn byw yn yr eiddo y mae'r cais wedi'i wneud ar ei gyfer.
- Bydd angen i breswylwyr sy'n gwneud cais am drwydded:-

1. Gyflwyno prawf o breswylio (mae prawf derbyniol yn cynnwys bil y dreth gyngor neu fil trydan/nwy/dŵr, neu gynnig morgais neu gytundeb tenantiaeth wedi'i ddyddio o fewn 3 mis i ddyddiad y cais)
2. Cyflwyno prawf o berchenogaeth cerbyd (llyfr log V5 neu ddogfennau yswiriant llawn sy'n dangos bod y cerbyd wedi'i gofrestru yn y cyfeiriad fydd yn gysylltiedig â'r drwydded rydych yn gwneud cais amdani)
3. Talu'r ffi archebu.

- Caiff ceisiadau am drwydded parcio i breswylwyr eu hoedi os cyflwynir ceisiadau heb y dystiolaeth gywir.
- Caiff trwyddedau eu hadnewyddu'n flynyddol a byddant yn ddilys am 12 mis. Cânt eu cyhoeddi a'u hadnewyddu ar gais unigolyn a thrwy ffurflenni cais priodol.
- Os yw cerbyd wedi'i brynu'n ddiweddar, bydd dogfennau yswiriant llawn sy'n dangos bod y cerbyd wedi'i gofrestru yn y cyfeiriad fydd yn gysylltiedig â'r drwydded rydych yn gwneud cais amdani yn cael eu derbyn yn dystiolaeth yn hytrach na llyfr log V5.
- Trwydded parcio rithwir fydd trwydded a bydd y drwydded yn cynnwys y manylion sydd eu hangen gan y Cyngor.
- Nes y caiff trwydded rithwir ei rhoi ar waith, ni chaniateir i breswylwyr barcio mewn man parcio i breswylwyr yn unig.
- Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i derfynu trwyddedau gaiff eu defnyddio'n dwyllodrus neu amhriodol, heb ad-dalu unrhyw gostau.
- Mae'n drosedd ffugio neu feddu ar drwydded wedi'i ffugio neu wneud datganiad ffug i gael trwydded.
- Mae Trwyddedau Parcio i Breswylwyr yn costio £35.00 am bob trwydded rithwir, y gellir ei hadnewyddu bob blwyddyn.
- Rhaid i drwyddedau rhithwir gael eu canslo pan na fydd y deiliad yn berchennog ar y cerbyd perthnasol mwyach neu pan nad yw'n byw yn y cyfeiriad y mae'r drwydded yn gysylltiedig ag ef mwyach.
- Os bydd preswylydd newydd yn gwneud cais am drwydded mewn eiddo sydd eisoes â'r uchafswm o drwyddedau a roddir, dim ond os cyflwynir tystiolaeth yn cadarnhau newid preswylydd ar gofnodion y Dreth Gyngor y caiff yr hen drwyddedau eu canslo. O ran Tai Amlfeddiannaeth, rhaid i'r landlord gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig yn cadarnhau newid preswylydd.
- Ni ellir trosglwyddo trwyddedau ac ni cheir ad-daliadau (er enghraifft os byddwch yn symud cyfeiriad)
- Gellir newid y cerbyd sy'n gysylltiedig â thrwydded am weddill cyfnod y drwydded ar ôl derbyn y ffurflen berthnasol ac ar ôl talu tâl gweinyddol ychwanegol o £5.

Gellir amrywio'r telerau ac amodau hyn o bryd i'w gilydd, ond bydd unrhyw breswylydd sy'n gwneud cais am drwydded yn cael esboniad clir o'r telerau ac amodau presennol sy'n berthnasol i'r drwydded yr adeg honno.

Mae telerau ac amodau llawn ar gyfer Trwyddedau Parcio i Breswylwyr ar gael ar wefan y Cyngor.

- Rhaid i breswylwyr arddangos trwydded ddilys yn eu cerbyd wrth barcio mewn man parcio preswyl oni bai bod ganddynt drwydded rithwir gyfredol.
- Nes y caiff trwydded ei derbyn/y caiff trwydded rithwir ei hactifadu, ni chaniateir i breswylwyr barcio mewn man parcio i breswylwyr yn unig.
- Ni fydd angen trwydded ar gyfer cerbydau sy'n cyflawni dyletswyddau hanfodol a phwerau statudol, gan gynnwys cerbydau'r gwasanaethau brys tra'n mynd i argyfwng, ymgymerwyr statudol, casglu/ dosbarthu post, busnes y cyngor/llywodraeth a cheir priodas ffurfiol a hersiau. Yn ogystal, ni fydd angen trwyddedau ar gyfer cerbydau sy'n llwytho/dadlwytho nwyddau neu gerbydau y mae teithwyr yn mynd i mewn iddynt neu'n eu gadael.
- Dim ond i geir, beiciau modur a faniau â phwysau gweili o lai na 1524 kg (30 cwt) y rhoddir trwyddedau. Bydd angen i breswylwyr gyflwyno'r Ddogfen Cofrestru Cerbydau (V5C) os ydynt yn gwneud cais ar gyfer fan fel y gellir gwirio'r pwysau gweili. Cyfrifoldeb y preswylydd yw sicrhau bod trwydded ddilys yn cael ei harddangos bob amser os yw'n parcio beic modur mewn man parcio i breswylwyr yn unig neu fod trwydded rithwir ddilys wedi'i hactifadu.
- Ni roddir trwyddedau unigol ar gyfer carafanau neu drelars, er y gellir parcio'r rhain o fewn cynllun ar sail fyrdymor wrth lwytho/dadlwytho ar yr amod eu bod wedi eu cysylltu â cherbyd sy'n arddangos trwydded ddilys.
- Wrth barcio cerbyd mewn man parcio i breswylwyr yn unig, ni ddylid ei ddefnyddio i werthu na chynnig llogi unrhyw wasanaeth.